

Ychwanegu at eich Pensiwn

Fel aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), byddwch eisoes yn talu cyfraniadau ar raddfa sydd yn cael ei gyfrifo gan gyfeirio at eich cyflog pensiynadwy blyneddol.

Fodd bynnag, mae Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (CTHEM) yn caniatáu i chi dalu hyd at 100% o'ch incwm mewn cyfraniadau pensiwn i ddarparu buddion wrth ymddeol. Felly, unwaith mae pob didyniadu statudol wedi cael eu gwneud, gan gynnwys eich cyfraniad CPLIL, gall gweddill eich cyflog cael ei ddefnyddio i wella eich buddion pensiwn.

Mae dau ddewis ar gael i chi o dan y CPLIL, os ydych am gynyddu eich buddion pensiwn.

Opsiwn 1

Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)

Os byddwch yn dewis i dalu i mewn i'r math hwn o drefniant, byddwch yn cael rhyddhad treth ar y cyfraniadau ydych yn ei wneud o'ch cyflog. Bydd eich cyfraniadau yn cael eu buddsoddi gyda darparwr(yr) fewnol a ddewiswyd gan y Gronfa Bensiwn, sy'n cael ei fuddsoddi ar wahân i brif gronfa'r Cynllun. Mae amrywiaeth o opsiynau buddsoddi ar gael i chi.

Mae'r opsiwn hwn yn hyblyg iawn, gan ei fod yn hollol i fyny i chi ynghylch faint yr hoffech gyfrannu (yn amodol ar 100% o'ch cyflog llai unrhyw ddidyniadau statudol). Gallwch hefyd ddewis i gynyddu neu leihau eich cyfraniad fel y dymunwch, yn ogystal â newid eich dewis (iadau) buddsoddi.

Pan fyddwch yn ymddeol, bydd gennych yr opsiwn i:

- defnyddio eich cronfa CGY i brynu blwydd-dal gan y darparwr mewnol neu unrhyw ddarparwr arall o'ch dewis (blwydd-dal yw swm penodol o arian a delir bob blwyddyn hyd at adeg neilltuol, megis marwolaeth);
- defnyddio eich cronfa CGY i brynu swm ychwanegol o bensiwn o fewn y CPLIL;
- tynnu allan hyd at 100% o'ch cronfa fel arian parod di-dreth a defnyddio'r gweddill i brynu swm ychwanegol o bensiwn o fewn y CPLIL.

Am fwy o wybodaeth ar yr opsiwn CGY, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn.

Nodwch

Mae'r opsiwn i dynnu hyd at 100% o'r gronfa CGY fel arian parod (di-dreth yn amodol ar gyfyngiadau CTHEM) pan fyddwch yn ymddeol yn gywir ar adeg cyhoeddi y ffeithlen hyn (Ebrill 2018).

Opsiwn 2

Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY)

Mae'r opsiwn yma yn eich galluogi i brynu 'swm o bensiwn blyneddol ychwanegol' drwy drefniant CPY, hyd at uchafswm o £7,194 (2020/21) ([yn gyfanswm os oes gennych fwy nag un swydd](#)). Noder bydd y swm hwn yn cael ei ail-brisio bob blwyddyn yn unol â chostau byw priodol.

Mae'r gost o brynu'r pensiwn ychwanegol yn cael ei gyfrifo gan gyfeirio at ganllawiau a gyhoeddwyd gan Adran Actwari'r Llywodraeth (GAD) ac yn seiliedig ar eich oedran a rhyw. Er bod y swm sy'n daladwy yn sefydlog, gellir eu prynu fel lwmp swm unigol **NEU** yn fisol dros gyfnod o'ch dewis chi (yn amodol ar isafswm o 12 mis). Naill ffordd, byddwch yn denu rhyddhad treth ar y cyfraniadau ychwanegol a wnaed o'ch cyflog.

Os ydych yn dymuno i dalu bob mis, efallai y bydd gofyn i chi gael archwiliad meddygol gan Feddyg Cofrestredig, ble rydych yn cael tystysgrif ar eich cost eich hun i ardystio eich bod mewn 'iechyd rhesymol dda'. Yna bydd unrhyw bensiwn ychwanegol a brynwyd yn cael ei ychwanegu at eich pensiwn safonol ar eich ymddeoliad. [Fodd bynnag, os byddwch yn marw, bydd DIM buddion pensiwn yn daladwy i'ch goroeswr mewn perthynas â'ch pensiwn ychwanegol.](#)

Er mwyn asesu'r gost o brynu pensiwn ychwanegol, yr ydych yn gallu cael mynediad i'r **Modelwr CPY** ar-lein o dan y ddolen ganlynol:

<https://www.lgpsmember.org>

Opsiwn 3

Trefniadau Eraill

Efallai y byddwch hefyd yn dymuno ystyried opsiynau sy'n allanol i'r CPLIL. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrannu at gynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhydd (CGYRh) neu Gynllun Pensiwn Personol / Cynllun Pensiwn Cyfranddaliad. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am yr opsiynau hyn, bydd angen i chi siarad â Banc, Cymdeithas Adeiladu neu Gwmni Yswiriant, neu fel arall geisio Cyngor Ariannol Annibynnol.

Cyngor Ariannol

Dylech nodi nad yw'r Gronfa Bensiwn yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ol i chi ystyried y wybodaeth hyn, mae'n bosib y bydd angen ichi ofyn am gyngor ariannol annibynnol cyn gwneud penderfyniad.

Gwybodaeth Bellach

Arweiniad cyffredinol yn unig y mae'r ffeithlen hon yn ei roi. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Ffôn: **01443 680 611**

E-bost: pensions@rctcbc.gov.uk



**Ychwanegu at eich
Pensiwn yn y CPLIL**